



DYFODOL I'R IAITH

SYLWADAU AR

**Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i faes gofal
iechyd cynradd drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Tachwedd 2013

Cyswllt:

Elin Wyn

Swyddog Polisi Dyfodol

029 2056 1192

07811 806760

elin@dyfodol.net

Dyfodol i'r Iaith

Mae Dyfodol i'r Iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg. Nod y mudiad yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisiau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg ym mhob maes polisi. Bydd yn gweithredu er budd Cymru a'i phobl, gan ennill cefnogaeth a pharch i'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn fater byw ar yr agenda gwleidyddol.

Mae Dyfodol i'r Iaith yn croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau ar Ymholiad Comisiynydd y Vgymraeg i faes iechyd a gofal cynradd

Sylwadau Dyfodol i'r Iaith

Mae mudiad Dyfodol i'r iaith yn croesawu'r ymholiad hwn i le'r Gymraeg ym maes gofal sylfaenol mewn iechyd. Yn ystod cyfnod ymgynghorol yr ymholiad fe fu'r mudiad yn annog ei aelodau i gyflwyno tystiolaeth mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac yn ysgrifennedig. Cafodd yr ymholiad a lleoliad y cyfarfodydd cyhoeddus eu crybwyll yng ngylchlythyron y mudiad i'w aelodau a chefnogwyr. Bu'r mudiad hefyd yn ail-drydar negeseuon Comisiynydd y Gymraeg am y cyfarfodydd cyhoeddus i'r 1,500 o ddilynwyr sydd gan y mudiad ar Trydar. Deallwn bod nifer o aelodau a chefnogwyr Dyfodol wedi mynychu'r cyfarfodydd a chyflwyno tystiolaeth anecdotaidd o'u profiadau eu hunain. Yn hytrach nag ail-adrodd profiadau personol mae'r sylwadau hyn yn fwy cyffredinol ac yn cynnig syniadau ar sut i sicrhau gweithlu sydd â'r sgiliau iaith priodol i ddarparu gwasanaethau gofal cynradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae sicrhau bod ymarferwyr gofal cynradd yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg gyda'u cleifion yn holl bwysig. I rai cleifion nid mater o ddewis yw siarad Cymraeg ond mater o angen. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos plant, pobl ag anableddau dysgu, pobl sy'n dioddef salwch meddwl a phobl hŷn sydd wedi dioddef strôc neu demensia. Ond fe ddylai pob claf sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg gydag ymarferwyr gofal cynradd gael y cyfle i wneud hynny.

Rydym yn argymhell y dylem siarad am "angen iaith" yn hytrach na "dewis iaith", ac "anghenion iaith Gymraeg defnyddiwr gwasanaeth" yn hytrach na'r "iaith Gymraeg". O fewn cyd-destun anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth, mae angen siarad am siaradwyr Cymraeg/pobl ddwyieithog yn hytrach na "iaith gyntaf", "mamiaith", "prif iaith" ac yn y blaen. Mae ymchwil Wei (2000) a Grosjean (1982) yn pwysleisio'r amrywiaeth o wahanol fathau o bobl ddwyieithog, ac os ydym yn cyfyngu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg i siaradwyr Cymraeg "iaith gyntaf", rydym yn amddifadu dysgwyr o'r cyfle i fynegi eu hunain mewn iaith y maent hwy wedi dewis ei siarad.

Rhaid hefyd ystyried y gallai *methu* cyfathrebu yn y Gymraeg fod yn beryglus i iechyd claf. Er enghraifft, mae Thomas (2010) yn pwysleisio dylanwad allweddol iaith wrth sicrhau asesu cywir, a thriniaethau ac ymyriadau priodol a diogel.

“Mae anymwybyddiaeth o wahaniaethau ieithyddol yn arwain at asesiadau anghywir, ac mae asesiadau anghywir yn arwain at driniaeth a gofal aneffeithiol, ac nid yw triniaeth a gofal aneffeithiol yn cael gwared o’r broblem”

(Cyflwyniad i Gynhadledd Gwobrau’r Gymraeg, 2010)

Ychydig o waith ymchwil sydd i feintioli faint o siaradwyr Cymraeg sy’n gofyn am wasanaeth Cymraeg ym maes iechyd. Mae siaradwyr Cymraeg yn gyndyn i amlygu eu hunain fel siaradwyr Cymraeg, a nifer bach iawn o siaradwyr Cymraeg sy’n gofyn am wasanaeth Cymraeg. Tybiwn o dystiolaeth anecdotaidd fod hyn oherwydd bod siaradwyr Cymraeg yn gyndyn i fod yn niwsans. Nid oes gan wasanaethau ffyrdd addas o adnabod siaradwyr Cymraeg. Mae Davies (1999) yn awgrymu *“such attitudes are culturally determined reflecting historical/political factors which have been assimilated into our cultural identity”* (p.198). Mae hyn yn awgrymu fod tebygrwydd rhwng ymddygiad siaradwyr Cymraeg ac ymddygiad lleiafrifoedd ethnig, sy’n dangos fod siaradwyr Cymraeg yn ymddwyn fel lleiafrif ethnig yn eu gwlad eu hunain. Cofiw’n hefyd fod siaradwyr Cymraeg ar y cyfan yn siarad Saesneg da, ac felly mae eu dwyieithrwydd a’r hyn sy’n eu gwneud yn wahanol yn anweledig. Yn nhermau gwasanaeth, mae’n ddigonol i gynnig gwasanaeth Saesneg yn unig i berson dwyieithog sy’n gallu siarad Saesneg. Serch hynny, fel yr awgrymir gan Grosjean (2002),

“Bilinguals usually acquire and use their languages for different purposes, in different domains of life, with different people. Different aspects of life normally require different languages.”

Un o’r camau cyntaf, felly, fyddai i bob meddygfa, deintyddfa a lleoliadau gofal cynradd eraill gadw cofnod o anghenion iaith a dewis iaith cleifion ar eu cofnod papur ac electroneg. Dylid diweddarau’r wybodaeth yn achlysurol, yn enwedig yn achos cleifion hŷn allai fod yn colli’r gallu i siarad ail iaith, megis Saesneg.

Cam rhwydd yw cofnodi anghenion iaith, ond tipyn anos yw diwallu’r anghenion hynny. Rhaid wrth gynllunio pwrpasol, hir-dymor i sicrhau bod gan weithlu y sector gofal iechyd cynradd y sgiliau anghenrheidiol i gyfathrebu gyda chleifion sydd angen neu yn dewis siarad Cymraeg.

Mae nifer helaeth o fyfyrwyr meddygol a phroffesiynau iechyd yn tueddu i aros i weithio yn yr ardal lle buon nhw’n astudio. Golyga hyn bod nifer o ddarpar feddygon, nyrsus ac eraill sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu colli os ydyn nhw’n dewis astudio y tu allan i Gymru.

Mae angen cynnig cymhelliad i fyfyrwyr sy’n siarad Cymraeg i aros yng Nghymru i astudio ar gyfer graddau meddygaeth, nyrsio, fferylliaeth, deintyddiaeth ac ati. Eisoes mae’r Coleg Cymraeg yn cynnig modiwlau Cymraeg mewn rhai cyrsiau, ond mae’n bosib nad yw rhai myfyrwyr sydd â sgiliau llafar Cymraeg yn ddigon hyderus i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid ystyried mathau eraill o gymhelliad i’r myfyrwyr hyn.

Yn anochel fe fydd rhai o'r myfyrwyr hyn yn dewis gadael Cymru ond mae angen trefn i gadw mewn cysylltiad â'r myfyrwyr hynny yn ystod eu cwrs prifysgol a chynnig cymhelliant iddyn nhw ddychwelyd i Gymru i weithio. Un opsiwn fyddai cynnig talu cyfran neu'r cyfan o'u dyled o ran ffioedd dysgu. Rhaid hefyd sefydlu cronfa ddata o fyfyrwyr chweched dosbarth sy'n dewis astudio'r pynciau iechyd er mwyn cadw mewn cysylltiad â nhw. Gallai hyn fod yn gyfrifoldeb cyfarwyddiaeth iechyd Llywodraeth Cymru a'r adran honno sy'n ymdrin â chynllunio'r gweithlu.

Cwmnïau preifat yw meddyfgeydd a deintyddfeydd sy'n darparu gwasanaeth i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae meddygon a deintyddion yn cael eu talu fesul triniaeth ac yn cael taliadau ychwanegol am ddarparu gwasanaethau megis hyrwyddo iechyd (atal smygu neu ofalu an ddannedd); clinigau clefyd y siwgr ac ati. Fel rhan o'r broses daliadau dylai meddyfgeydd a deintyddfeydd sydd â nifer o gleifion sy'n siarad Cymraeg dderbyn taliadau ychwanegol am gyflogi meddygon a nyrsus sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg.

Dylai fod yn orfodol i bob meddygfa, deintyddfa a fferyllfa nodi pa rai o'u staff sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a sicrhau bod cleifion yn gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Gellid gosod arwyddion yn y feddygfa, y ddeintyddfa neu'r fferyllfa a defnyddio adnoddau gwefan "Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol" <http://mylocalhealthservice.wales.gov.uk/#/cy> i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg.

Mewn rhai ardaloedd o Gymru fe fydd mwy o angen gweithwyr iechyd gofal sylfaenol sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys cadarnleoedd y Gymraeg yng ngogledd a gorllewin Cymru, ac hefyd rhai ardaloedd trefol a dinesig, megis rhannau o Gaerdydd lle mae canran uchel o deuluoedd Cymraeg a phlant sy'n methu siarad Saesneg.

Dylai pob Bwrdd Iechyd Lleol baratoi Fframwaith Sgiliau Iaith gan ystyried yn fanwl lle mae'n gwbl angenrheidiol cael meddygon, nyrsus, deintyddion, fferyllwyr ac ati sy'n siarad Cymraeg. Os nad oes digon o staff a'r sgiliau priodol dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu cyfle i staff presennol ddysgu Cymraeg ac ystyried cynnig cymhelliant i siaradwyr Cymraeg lenwi'r swyddi hynny.

Mae cynllunio gweithlu gofal iechyd fydd yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg gyda chleifion yn gynllun hir dymor a gymer efallai ddegawd i ddwyn ffrwyth. Mae'n dda gweld ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal yn eu Fframwaith Strategol "Mwy na Geiriau". Ond mae angen i'r fframwaith hon fod yn wirioneddol yn fwy na geiriau. Rhaid sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithredu'r fframwaith a bod hynny yn flaenoriaeth uchel i'r Byrddau Iechyd. Petae "Mwy na Geiriau" yn cael ei wireddu ar draws holl faes iechyd a gofal yng Nghymru byddai hynny yn gam mawr ymlaen o ran diwallu anghenion iaith cleifion.

Cyferiadau

Davies, D. R. (1999) Welsh psyche: implications for psychological services. *International Review of Psychiatry*, 11, 197-211.

Grosjean, F. (1982). *Life with Two Languages*. Harvard University Press. CA, Massachusetts & London, England.

Grosjean, F. (2002). Adalwyd o: www.francoisgrosjean.ch/interview_2002_en.html

Thomas, E. M. (2010). *Anghenion y claf dwyieithog: her i'r Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd*. Cyflwyniad i Gynhadledd Gwobrau'r Gymraeg.

Wei, L. (2000). *The Bilingualism Reader*. Routledge.